AMGUEDDFA CYMRU

**Banc Lluniau**

Picture Bank

O’r Cylch i’r Genedlaethol | Hanes Eisteddfodau Cymru



# O’r Cylch i’r Genedlaethol | Hanes Eisteddfodau Cymru

## Cyflwyniad |

**Cyfres o ddelweddau ar thema neu bwnc penodol yw’r adnodd ‘Banc Lluniau’. Yn y set hon mae delweddau’n ymwneud ag eisteddfodau yng Nghymru a hanes yr Eisteddfod Genedlaethol.**

Yn y nodiadau athrawon mae gwybodaeth gefndir, dehongliad o’r delweddau, deilliannau dysgu posib a manylion darllen pellach ac adnoddau ar-lein.

Gall yr adnodd gael ei lawrlwytho ac nid yw ar gyfer unrhyw oedran na cham cynnydd penodol. Rydyn ni’n annog defnyddwyr i ddarllen y nodiadau a golygu’r adnoddau i weddu orau i’w hanghenion.

## Gwybodaeth Gefndir |

*Yn ôl yr Athro Hywel Teifi Edwards, mae'r gair Eisteddfod yn golygu 'eistedd-ynghyd.' Cyfarfod cystadleuol rhwng beirdd a chlerwyr oedd yr Eisteddfodau cynharaf, gyda’r arglwydd neu’r tywysog oedd yn noddi yn dewis yr enillydd. Er bod hanes yr Eisteddfod yn mynd yn ôl i 1176 at gystadleuaeth farddol a gynhaliwyd gan yr Arglwydd Rhys yng Nghastell Aberteifi, mae gwreiddiau'r Eisteddfod Genedlaethol fodern yn perthyn i ddiwedd y ddeunawfed ganrif.*

*Yn 1789, roedd diddordeb mawr gan Thomas Jones o Gorwen yn yr eisteddfodau bach fyddai’n cael eu cynnal mewn tafarndai. Gofynnodd i'r Gwyneddigion (cymdeithas o Gymry yn Llundain) noddi Eisteddfod yng Nghymru, ac ym mis Medi 1789 cynhaliwyd eisteddfod yn y Bala – hon oedd rhagflaenydd yr Eisteddfod Genedlaethol.*

*Gyda diwedd rhyfeloedd Napoleon, aeth pobl ati unwaith eto i eisteddfota. Y mwyaf prysur o’r rhain oedd cylch o weinidogion fyddai’n cyfarfod dros y Nadolig a'r Calan yn rheithordy Ceri, ger y Drenewydd.*

AMGUEDDFA CYMRU

Banc Lluniau
Picture Bank

O’r Cylch i’r Genedlaethol | Hanes Eisteddfodau Cymru

# O’r Cylch i’r Genedlaethol | Hanes Eisteddfodau Cymru

## Gwybodaeth Gefndir |

*Yng Ngheri yn 1818 y dechreuodd pobl feddwl o ddifri am adfywio mudiad yr eisteddfod a chynnal eisteddfodau go iawn.*

*Cynhaliwyd yr eisteddfod daleithiol gyntaf y flwyddyn ganlynol (1819) yng Nghaerfyrddin. Teithiodd Iolo Morganwg, sylfaenydd Gorsedd y Beirdd, yr holl ffordd i Gaerfyrddin yn 70 oed gyda’i bocedi’n llawn cerrig mân, ac yno fe luniodd gylch yr Orsedd ar y lawnt. Dyma fyddai ymddangosiad cyntaf Gorsedd Beirdd Ynys Prydain yn yr Eisteddfod, yn Ngwesty'r Ivy Bush yng Nghaerfyrddin yn 1819, ac mae’r cysylltiad agos â'r ŵyl wedi parhau hyd heddiw. Mae'n gymdeithas o feirdd, llenorion, cerddorion, artistiaid ac unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol a nodedig i'r Gymraeg ac i lenyddiaeth a diwylliant Cymru. Derwyddon yw’r enw ar aelodau’r Orsedd, ac mae lliw eu gwisgoedd – gwyn, glas neu wyrdd – yn dangos eu gwahanol rengoedd.*

*Tyfodd y diddordeb, a cynhaliwyd eisteddfodau yn Ninbych, Biwmares a Chaerdydd, a sawl un yn y Fenni dan nawdd Arglwyddes Llanofer.*

*Erbyn eisteddfod daleithiol olaf y Fenni yn 1853 roedd hi’n amlwg bod yr Eisteddfod ar drothwy cyfnod arbennig o gyffrous.*

*Roedd rheilffyrdd bellach yn croesi Cymru gan ei gwneud hi’n bosibl i filoedd o bobl o bob cwr o’r wlad deithio i eisteddfodau gwahanol.*

*Yn Ninbych, yn 1860, Sefydlwyd corff cenedlaethol Yr Eisteddfod. Byddai gan y corff hwn Bwyllgor Gwaith, sef y Cyngor, gyda’r aelodau'n cael eu hethol. Y corff hwn sefydlodd yr Eisteddfod Genedlaethol swyddogol, i'w chynnal yn y Gogledd a'r De am yn ail.*

*Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol swyddogol gyntaf yn Aberdâr yn 1861.*

# O'r Cylch i'r Genedlaethol | Hanes Eisteddfodau Cymru

## Delweddau a ddefnyddiwyd a'u dehongliad |

*Sleidiau 2-3 | Mae'r sleidiau hyn yn dangos yr Arglwydd Rhys a Chastell Aberteifi. Yng Nghastell Aberteifi, yn 1176, cynhaliodd yr Arglwydd Rhys gystadleuaeth debyg i'r hyn fyddai'n dod yn eisteddfod.*

**Cerflun carreg o'r Arglwydd Rhys yn Eglwys Gadeiriol, Tyddewi**
**Olion Castell Aberteifi, 1788**

*Sleid 3 | Medal a ddyfarnwyd i'r telynor gorau yn Eisteddfod Caerwys, 1567. Mae'r gwrthrych yn dangos sut y parhaodd traddodiad yr eisteddfod ymhell ar ôl dyddiau'r Arglwydd Rhys, a sut mae dyfarnu medalau fel gwobrau yn draddodiad mor hen â'r eisteddfod ei hun.*

**'Telyn Mostyn', y wobr i'r telynor gorau yn Eisteddfod Caerwys, 1567**

*Sleid 5 | Medal a ddyfarnwyd i Walter Davies (Gwallter Mechain) yn Eisteddfod y Bala, 1789, eisteddfod allweddol fyddai'n dylanwadu ar lawer i ddod. Roedd yr ail orau mor flin nad oedd wedi ennill y fedal nes iddo herio Walter Davies i ornest (duel). Wnaeth hi ddim mynd mor bell â chleddyfau na gynnau diolch byth!*

**Medal Arian Cymdeithas y Gwyneddigion, Llundain, y Bala, 1789**

*Sleid 6 | Prin yw'r cofnodion gweledol cynnar o eisteddfodau yng Nghymru, felly mae'r ddelwedd hon o Bowys yn enghraifft arbennig iawn. Y telynor yw Henry Humphreys, a enillodd wobr y delyn yn 1822 a 1824.*

**Eisteddfod Powys, 1824, y Trallwng, Sir Drefaldwyn**

*Sleid 7 | Eisteddfod Caerfyrddin yn 1819, sef y gyntaf o'r eisteddfodau taleithiol mawr. Mae'r sleid hon yn dangos y gadair a'r fedal farddol, a ddyfarnwyd y*

# O'r Cylch i'r Genedlaethol | Hanes Eisteddfodau Cymru

## Delweddau a ddefnyddiwyd a'u dehongliad |

*flwyddyn honno i Walter Davies (Gwallter Mechain). Y gadair a'r fedal fyddai dwy o'r tair prif wobr mewn eisteddfod.*

**Cadair a medal Eisteddfod Caerfyrddin, 1819, a ddyfarnwyd i Walter Davies (Gwallter Mechain)**

*Sleidiau 8-12 | O'r cylch i'r genedlaethol, cystadleuaeth yw'r Eisteddfod, a'r gadair, y goron, a'r fedal lenyddiaeth yw tair o'r prif wobrau. Y Gadair yw'r wobr am yr awdl orau (cerdd gaeth) o dan 300 llinell. Y goron yw'r wobr am y bryddest (cerdd rydd hir) orau neu ddilyniant o gerddi rhydd. Y Fedal Lenyddiaeth yw'r wobr am y gyfrol ryddiaith orau (all fod yn nofel, traethodau, erthyglau ayyb).*

*Mae'r sleidiau hyn yn dangos yr amrywiaeth o wahanol gadeiriau fyddai'n wobrau mewn eisteddfodau taleithiol a chenedlaethol. Mae'r medalau a'r coronau yn unigryw i bob eisteddfod hefyd. Yn Sleid 12 gallwn ni weld bod y wobr yn gallu bod yn hollol wahanol weithiau – yn yr achos hwn, telyn deires a ddyfarnwyd i'r telynor gorau.*

**Cadair Eisteddfod Tregaron, a ddyfarnwyd i John Watkins (Ioan Gwent), 1876**
**Enillwyd y Gadair hon gan Ben Davies yn Eisteddfod Genedlaethol Llandudno, 1896**
**Medal arian, Eisteddfod Caerdydd, 1839**
**Enillwyd y goron hon gan y bardd Ceiriog (John Ceiriog Hughes) yn Eisteddfod Fawr Llangollen, 1858**
**Telyn deires a ddyfarnwyd yn wobr gan Arglwyddes Llanofer yn Eisteddfod y Fenni, 1848**

*Sleid 13-16 | Mae'r sleidiau hyn yn dechrau gyda delwedd o Iolo Morganwg, sylfaenydd Gorsedd y Beirdd. Yn 1819, cysylltodd Iolo gylch yr Orsedd a'r seremoni Dderwyddol â'r eisteddfod am y tro cyntaf. Byth ers hynny mae seremonïau'r Derwyddon a chylchoedd yr Orsedd yn greiddiol i'r traddodiad*

# O’r Cylch i’r Genedlaethol | Hanes Eisteddfodau Cymru

## Delweddau a ddefnyddiwyd a’u dehongliad |

*eisteddfodol. Mae'r sleidiau yn dangos y seremonïau, yn ogystal â darlun o Gylch yr Orsedd a model Cylch yr Orsedd gan ffatri deganau.*

**Cynllun o 'Orsedd Beirdd Ynys Prydain' a ddyluniwyd gan T.H. Thomas, yn 1901**
**Priodas y Cleddyfau, Eisteddfod y Fenni, 1913**
**Model o'r Orsedd, a wnaed gan Ffatri Deganau Dyffryn Clwyd yn Nhrefnant ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1914**

*Sleid 17 | Paentiad o enillydd cadair yr Eisteddfod Genedlaethol swyddogol gyntaf, a gynhaliwyd yn Aberdâr, 1861. Yn y paentiad mae’n eistedd ar yr union gadair a enillodd!*

*Y bwriad oedd cynnal yr eisteddfod ar gomin Hirwaun, ar gyrion Aberdâr, ond cafodd y pafiliwn enfawr ei ddinistrio gan wynt a glaw trwm a symudwyd yr eisteddfod i dŷ'r farchnad. Wnaeth y tywydd ddim tarfu ar y cystadlu o gwbl, ac yn ôl y papur newydd lleol…*

*“The streets of Aberdare presented quite an animated appearance, the streets were decorated with floral devices, and triumphal arches, while the windows of the house floated and profusion of bunting, embracing flags of all nations.”*

**David Watkin Jones (Dafydd Morganwg), (1832-1905), gan A Harris**

*Sleid 18 | Mae'r sleid hon yn dangos pafiliwn eisteddfodol yn cael ei godi. Y pafiliwn oedd prif ganolbwynt holl ddigwyddiadau unrhyw eisteddfod.*

**Eisteddfod Gadeiriol Dinorwig, Sir Gaernarfon, 1911**

*Sleid 19 | Mae’r Eisteddfod Genedlaethol wedi cael ei chynnal bob blwyddyn ers dros 160 o flynyddoedd, ond*

# O'r Cylch i'r Genedlaethol | Hanes Eisteddfodau Cymru

## Delweddau a ddefnyddiwyd a'u dehongliad |

*nid yw bob amser wedi cael ei chynnal yng Nghymru. Mae'r sleid hon yn dangos agoriad glawog i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llundain, yn 1887.*

**Eisteddfod Genedlaethol Llundain, Illustrated London News, 1887**

*Sleid 20-21 | Mae'r ddwy sleid hon yn dangos y byddai eisteddfodau taleithiol yn dal i ddigwydd ledled Cymru ar ôl sefydlu'r Eisteddfod Genedlaethol, ac ymhell i'r 20fed ganrif. Roedden nhw'n dal yn ddigwyddiadau mawr, gyda gwobrau, pafiliynau ac yn y blaen.*

**Eisteddfod, Dre-fach, Felindre, 1920**
**Eisteddfod, Dinorwig, 1911**

*Sleid 23 | Mae'r sleid hon yn dangos Nansi Richards ifanc ar ôl un o'i thair buddugoliaeth olynol yng nghystadlaethau'r delyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Aeth ymlaen i fod yn delynores i'r teulu brenhinol. Roedd yr eisteddfod yn gallu bod yn llwyfan i bobl gael eu cyflwyno i gynulleidfa ehangach, a gallai newid bywydau a gyrfaoedd pobl oedd yn cystadlu.*

**Nansi Richards (Telynores Maldwyn) gyda'i thelyn deires ar ôl ennill yn Eisteddfod Genedlaethol Llangollen, 1908**

*Sleid 23 | Poster o Eisteddfod Genedlaethol 1906. Os edrychwch chi'n ofalus, gallwch chi weld llawer o wahanol agweddau ar y traddodiad eisteddfodol.*

**Poster yr Eisteddfod Genedlaethol, 1906**

AMGUEDDFA CYMRU
Banc Lluniau
Picture Bank

O’r Cylch i’r Genedlaethol | Hanes Eisteddfodau Cymru

# O’r Cylch i’r Genedlaethol | Hanes Eisteddfodau Cymru

## Geirfa allweddol |

**Archdderwydd**
*Arweinydd yr Orsedd.*

**Awdl**
*Cerdd hir mewn cynghanedd draddodiadol (canu caeth).*

**Bardd (lluosog Beirdd)**
*Rhywun sy’n ysgrifennu barddoniaeth, yn enwedig ymgeisydd yn un o'r cystadlaethau.*

**Cadeirio**
*Yn seremoni Cadeirio’r Bardd bydd enillydd y gystadleuaeth am y gerdd hir orau mewn cynghanedd (canu caeth) yn ennill cadair wedi’i cherfio â llaw.*

**Coroni**
*Yn seremoni Coroni’r Bardd bydd enillydd y gystadleuaeth am y gerdd rydd orau (canu caeth) yn ennill coron.*

**Derwydd (lluosog Derwyddon)**
*Derwydd; y ‘derwyddon’ yw rheng uchaf yr Orsedd, wedi eu gwisgo mewn gwyn.*

**Ffugenw**
*Byddai’r beirdd oedd yn cystadlu mewn cystadlaethau barddoni yn dewis Enw Barddol*

**Gorsedd, Gorsedd y Beirdd**
*Cyfarfod neu ‘Lys’ y Beirdd, sy'n enwog am eu gwisgoedd lliwgar.*

**Pafiliwn**
*Y babell fawr (sy’n dal 4,000) lle bydd y prif seremonïau’n cael eu cynnal.*

**Pryddest**
*Cerdd hir mesur ‘rhydd’ (nid mewn cynghanedd).*

# O'r Cylch i'r Genedlaethol | Hanes Eisteddfodau Cymru

**Darllen pellach |**

*Edwards, H. T. Edwards, The Eisteddfod, University of Wales Press, 2016*

**Gwefannau |**

https://museum.wales/curatorial/social-cultural-history/online-collections/what-is-the-eisteddfod/

https://www.library.wales/discover-learn/education/learning-resources/the-national-eisteddfod-of-wales